



Cerdded Llwybr | Walking Trail

Arolwg

Dewiswch gylchdaith o gwmpas Llyn Tegid neu taith fyrrach i un cyfeiriad gan ddefnyddio Rheilffordd Llyn Tegid (tymhorol) neu'r gwasanaeth bws (Llanuwchllyn-Bala) i ddychwelyd. Mae'r teithiau yn defnyddio llwybrau cerdded ar fryniau isel o gwmpas y llyn gyda llawer o gamfeydd. Mae golygfeydd arbennig o'r llyn, y mynyddoedd agos a rhai llawer pellach i'w gweld.

Mae Llwybrau Teithiau eraill ar gael i archwilio mwy o hanes tref Y Bala. Mae Cymdeithas Dwristiaid y Bala a Phenllyn wedi gwirio'r wybodaeth roddir yn y daflen hon ond gall rhai newidiadau ddigwydd. Dylech fod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun. Cymerwch sylw o rybuddion, dilynwch y Cod Cefn Gwlad. Gweler gwefan [www.GoBala.org](http://www.GoBala.org) (Gwybodaeth/Diogelwch)

Gwybodaeth i Dwristiaid:	<a href="http://www.VisitBala.org">www.VisitBala.org</a> neu <a href="http://www.ymweldageryri.info">www.ymweldageryri.info</a>
Gwybodaeth am Deithiau:	<a href="http://www.GoBala.org">www.GoBala.org</a>

Cynlluniwch eich taith

Teithiau	Mae llawer llwybr ar gael
Map	OS OL23
Tirwedd	Llwybrau, rhannau byr ar ffordd prysur, tir amaethyddol, gweundir, llawer o gamfeydd
Cychwyn/ Diwedd y Daith:	Y Ganolfan Hamdden, Heol Pensarn, Bala, LL23 7SR, neu maes parcio APCE
Cychwyn/ Diwedd y Daith:	Llanuwchllyn, Rheilffordd Llyn Tegid LL23 7DD, Cofgolofn (A494)
Parcio Ceir	Bala: Y Ganolfan Hamdden (Talu ac Arddangos) neu y Maes Parcio APCE ar lan Llyn Tegid (Talu ac Arddangos)
Parcio Ceir	Llanuwchllyn: A494 neu Pont-y-Pandy
Toiledau	Y Ganolfan Hamdden; Llangower (maes parcio y llyn); Llanuwchllyn
Lluniaeth	Caffi'r Ganolfan Hamdden, Llanuwchllyn
Cludiant Cyhoeddus	Rheilffordd Llyn Tegid (tymhorol, gweler cysylltiadau) <a href="http://www.GoBala.org">www.GoBala.org</a> (Gwybodaeth/Cludiant Cyhoeddus)
Dalier Sylw	Dros weundir serth a gwlyb, argymhellir esgidiau cerdded. Rhannau byr ar ffordd prysur (A494). Drwy ffermydd gyda gwartheg a hwyrach teirw.

Teithiau o gwmpas Llyn Tegid

Mae llawer o lwybrau cerdded o gwmpas y llyn, rhai ohonynt yn ffurfio taith wedi ei pharatoi, fel Rhwydwaith Hamdden Parc Cenedlaethol Eryri; gallwch gynllunio eich taith eich hun trwy ddefnyddio map OS neu y map dros y dudalen. Hefyd, mae llwybrau hygyrch ac aml ddefnydd ar gael, fel y llwybr ar hyd yr A494 o'r Bala i Glanllyn (i gyrraedd Llanuwchllyn yn y dyfodol) a llwybrau ar lan y llyn ei hun er bod rhai o'r rhain dan ddŵr ar brydiau. Yn dymhorol mae modd defnyddio gorsafau trên Rheilffordd Llyn Tegid i fynd am dro, e.e. o'r Bala i Langower, neu o Lanuwchllyn i Langower.

Dyma rai o'r teithiau sy'n cychwyn yng Nghanolfan Hamdden neu feysydd parcio y Parc Cenedlaethol (APCE) yn y Bala a Llanuwchllyn:

- Cylchdaith fer sy'n defnyddio llwybrau cerdded (gweler map OS)
- Taith i un cyfeiriad gan ddefnyddio llwybrau cerdded ger y llyn (gweler map OS) gan ddychwelyd ar drên Rheilffordd Llyn Tegid (tymhorol) sydd yn rhedeg ar fin y llyn

- Dilyn llwybr taith y Rhwydwaith Hamdden
- Am daith mwy heriol beth am y "Daith Uchel"

Mae **Rhwydwaith Hamdden** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn hawdd ei ddilyn, mae wedi ei gyferbyntio gyda arwyddion gleision a cynnwys:

- Y Rhan Ogleddol: Bala – Llanycil - Llanuwchllyn
- Y Rhan Ddeheuol: Llanuwchllyn - Bala

Pellter & Amseroedd Y Rhwydwaith Hamdden

	Llanuwchllyn - Bala	Bala - Llanuwchllyn	Cylchdaith
Pellter	11 km (6½ milltir)	12 km (7 milltir)	21 km (14 milltir)
Gwaith Dringo	230 m (750 tr)	440 m (1,450 tr)	670 m (2,200 tr)
Amser	3 - 4 awr	4 - 5 awr	7 - 9 awr

Mae'r Daith Uchel wedi ei seilio ar Sialens y Bala – taith elusenol flynyddol, wedi ei threfnu gan Glwb Rotari'r Bala & Phenllyn. Am fod y daith yn mynd ar hyd brynau uwch na'r Rhwydwaith Hamdden mae'r golygfeydd yn fwy trawiadol. Ar ochr ddwyreiniol y llyn mae'r daith yn codi hyd at Graig-y-Allor (470 m) ac wedyn yn disgyn drwy goedwig, tra ar yr ochr orllewinol

mae'r daith yn croesi gweundir di-lwybr (Gwastadros) gyda'r uchafbwynt yn Moel-y-Garnedd (360 m) lle mae golygfeydd ardderchog i'r pedwar cyfeiriad. Mae angen medru darllen map yn fanwl ar y Daith Uchaf a mae'r dirwedd yn fwy anodd, yn enwedig Gwastadros.

Pellter ac Amseroedd Y Daith Uchel

	Llanuwchllyn - Bala	Bala - Llanuwchllyn	Cylchdaith
Pellter	13½ km (8½ milltir)	10½ km (6½ milltir)	24 km (15 milltir)
Gwaith Dringo	520 m (1,700 tr)	300 m (990 tr)	820 m (2,690 tr)
Amser	4 - 5 awr	3- 4 awr	7 - 9 awr

Y Teithiau

I ddilyn y Rhwydwaith Hamdden defnyddiwch map APCE a'r wybodaeth gysylltiedig yn ogystal a map OS OL23.

I ddilyn y Daith Uchel defnyddiwch y map dros y dudalen i adnabod y llwybr ar fap OS OL23.

Cysylltwyr:


- APCE Warden y Llyn:  
01678 520 626; [www.eryri-npa.gov.uk](http://www.eryri-npa.gov.uk)
- Rheilffordd Llyn Tegid:  
01678 540666; [www.bala-lake-railway.co.uk](http://www.bala-lake-railway.co.uk)
- Tafarn yr Eryrod, Llanuwchllyn:  
01678 540278, <http://yr-eagles.co.uk>



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Arolldd Gwledig. The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



High Route/Y Daith Uchel:  
Bala - Llanuwchllyn  
Llanuwchllyn - Bala



DECHRAU / GORFFEN

DECHRAU / GORFFEN

**Llyn Tegid** yw'r llyn naturiol mwyaf yng Nghymru. Mae yn mesur rhyw 3½ milltir (6 km) o hyd, ¾ milltir (1 km) ar draws, a mae dros 140 troedfedd (43 m) o ddyfnder gyda arwynebedd o 10.24km<sup>2</sup> neu 1,120 hectar.

Y canlynol yw'r prif fynyddoedd yn yr ardal :

- I'r De mae cadwyn yr **Aran** sydd yn codi o ben deheuol y llyn i'r Aran Benllyn (2,904 tr/885 m) a'r Aran Fawddwy (2,969 tr/905 m).
- I'r Gorllewin mae cadwyn yr **Arenig**, Arenig Fawr (2,800 tr/854 m) yw'r copa uchaf.
- I'r Gogledd-Ddwyrain mae cadwyn mynydd y **Berwyn**.

Mae'r Bala yn gorwedd mewn dyffryn eang a grëwyd yn wreiddiol gan hollt daearegol ac wedyn dioddefodd rewlifiant. 'Roedd y llyn yn arfer bod yn llawer mwy nac ydyw ar hyn o bryd ond dros amser ac effaith erydiad mae lefel y dwr wedi gostwng. Yn y gorffennol pell 'roedd ochr Ogleddol y llyn yn estyn i gynnwys yr ardal lle mae tref y Bala yn sefyll a chyn belled a Bodweni i'r Gogledd-Dwyrain. Mae'n debyg fod yr ochr Ddeheuol hefyd yn estyn yn llawer pellach, hwyrach mor bell a Llanuwchllyn.

Ffurfiwyd y mynyddoedd rhyw 500 miliwn mlynedd yn ôl, y rhai isaf wedi eu gosod i lawr o dan y môr a'r rhai uchaf, sydd yn fwy hagr, yn dirffurfiau folcanig, cynnwys y rhain gadwynau'r Aran a'r Arenig.

Yn ôl ofergoeldd lleol ffurfiwyd y llyn fel cosb am gamweddau Tegid Foel - tywysog lleol. Boddwyd ei blasty, gyda'r oll o'i fewn ar ôl noson o wleda diota pan anghofiwyd fod angen rhoi gorchudd ar ffynnon hud a fyddai yn gorlifo yn y nos os na chaewyd hi. Dim ond un person lwyddodd i oroesi hyn, sef



telynor crwydrol a arweiniwyd o'r fan drwy wrando ar aderyn bach yn galw "Daw'r dial.....!". Pan ddeffrodd ar ochr y bryn yn y bore gwelodd llyn anferth yn llenwi'r dyffryn a'i delyn yn nofio ar wyneb y dŵr. Yn fwy diweddar soniwyd am fwystfil yn cuddio yn nyfnderoedd y llyn o'r enw "Tegi". Ym 1995 gwnawd ymchwil yn nyfroedd y llyn gan long danfor Japaneaidd ond doedd dim sôn am fwystfil!

Mae enw'r Bala yn golygu "allanfa'r dwr o'r llyn"

### Bywyd Gwyllt

Mae toraith o fywyd gwyllt a phlanhigion yn bodoli yn Llyn Tegid a'r ardal gyfagos. Mae'r llyn yn "SSSI" ac yn fangre tir gwlyb o bwysigrwydd rhyngwladol. Yn y llyn mae 14 rhywogaeth o bysgod, gan gynnwys y **Gwyniad**, sydd yn bysgodyn unigryw ac ar gael ddim ond yn Llyn Tegid. Mae yna hefyd falwen ludiog arbennig sydd ddim ond i'w chael ar lan y llyn yn yr oll o'r DU. Mae Dyfrgwn yn defnyddio'r llyn gydol y flwyddyn, a maent yn defnyddio'r afonydd sydd yn llifo i mewn i'r llyn i fwyta a chenhedlu. Felly, cadwch lygad barcud ar lan y llyn ac ar unrhyw symudiad ar wyneb y dwr tra'n cerdded, mae'n bosib i chwi gael cipolwg o Ddyfrgi neu hwyrach Finc.

Mae llawer rhywogaeth o hwyaid gwyllt a chotieir i'w



cael yma hefyd, rhai ohonynt yn gwario'r gaeaf ar y llyn. Mae'r gwyach a'r gwyach bach yn defnyddio'r llyn i fagu eu cywion, a mae gwyddau gwyllt ar gael hefyd.

Ar ymyl y llyn gallwch weld sawl aderyn arall e.e. pibydd y dorlan, môr-hedydd, sigl-i-gwt, yswidw hirgwt, telor yr helyg, y dringwr bach, telor y cnau ac yn y blaen.

Dros y blynyddoedd darganfuwyd ryw 139 rhywogaeth o aderyn o gwmpas y llyn. Cynnwys y rhain adar ysglyfaethus fel y gigfran, y barcud coch, y bwncath a'r cudyll coch. Mae hefyd sawl math o dylluan i'w gweld ac yn enwedig y crëyr glas.

Ar wahân i'r uchod mae pob math o anifeiliaid i'w gweld fel y tramwywch y llwybrau ger y llyn fel llwynogod, wiwerod, cwningod, ysgyfarnogod, moch daear a llawer creadur arall.

